# Antur dan y Ddaear

Roderick Hunt          Alex Brychta

Coeden Ddarllen Rhydychen



DRAKE



Roedd y plant yn y seler.
Roedden nhw eisiau cael hyd i dwnnel cudd.



Chwiliodd y plant ym mhobman.


Curon nhw ar y llawr.

Curon nhw ar y waliau.




Ond doedd dim twnnel cudd.

'Does dim gobaith,' meddai Cad.



Rhedodd Onw i'r seler.
Roedd yr allwedd hud ganddo.
Roedd yr allwedd yn disgleirio.





Rhedon nhw i ystafell wely Cad.
'Dowch!' galwodd Onw.
'Mae'n amser antur hud.'



Aeth yr hud â nhw o dan y ddaear.
Roedden nhw mewn twnnel mawr.




Cododd Wilma lamp.
'Dowch,' meddai hi.
'I ffwrdd â ni!'



Roedd coblynnod yn y twnnel.
Ond roedden nhw'n swil.
'O na!' medden nhw. 'Plant!'



Aeth y plant i lawr y twnnel.
Welson nhw mo'r coblynnod.
'Ffordd yma,' meddai Wilma.




Daeth y plant at ogof fawr.

'Waw!' meddai Cad.

Edrychodd y coblynnod ar y plant.


'O diar!' meddai'r coblynnod.

'O diar! O diar!'




Roedd eco yn yr ogof.
'Whoooooaa!' galwodd Onw.
'Whoooooaa!' galwodd yr eco.







'Whoooooaa!' galwodd Onw.
Chwarddodd y coblynnod.
Chwarddon nhw a chwarddon nhw.



Daeth y coblynnod allan.
Rhedon nhw i ddweud helo.



'Whoooooaa!' medden nhw.
'Whoooooaa!' meddai'r eco.
A chwarddodd pawb.




Roedd y coblynnod yn drist.
Doedd ganddyn nhw ddim gwaith.






'Fedrwch chi helpu?' meddai'r coblynnod.
'Does dim mwy o aur yma.
Wyddon ni ddim beth i'w wneud.'




Cafodd Wilma syniad da.
Dywedodd wrth y coblynnod beth oedd o.



Roedd y coblynnod yn hoffi syniad Wilma.
Paention nhw arwyddion.
Helpodd y plant.



Rhoddodd y coblynnod
oleuadau yn yr ogofâu.
Edrychai'r ogofâu yn hardd.




Daeth pobl i'w gweld.
Roedd y coblynnod yn hapus.




Roedd y coblynnod yn brysur.
'Diolch i'r plant,' medden nhw.

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Roedd yn amser mynd adref.




'Am antur!' meddai Wilff.

'Mae gen i syniad da,' meddai Dids.

'Beth ych chi'n feddwl?'



Argraffwyd yng Nghymru

# Antur dan y Ddaear

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 5 Rhagor o Storïau Pecyn A

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**

**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o Ddim yn Deg!
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999

ISBN 0 86 174160 9

DRAKE

ISBN 0-86174-160-9

9 780861 741601